Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
www.ceredigion.gov.uk

17.11.25

Annwyl Syr/Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir cyfarfod FFORWM CYLLID YSGOLION CEREDIGION yn rhithiol drwy 'Teams' ar **Ddydd Iau, 20 Tachwedd 2025** am **4.30yh** i drafod y materion canlynol:

1. Ymddiheuriadau
2. Datgelu buddiant personol
3. Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gyfarfu ar 5 Rhagfyr 2024 (Atodiad A)
4. Materion yn codi o'r Cofnodion
5. Sefyllfa Gorfforaethol Gyffredinol
6. Cyllideb Ysgolion Dirprwyedig (Balansau Ysgolion)
7. Fformiwla Gyllido 2025-26
8. Grantiau
9. Unrhyw Fater Arall
10. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Dear Sir/Madam

I write to inform you that a Meeting of the CEREDIGION SCHOOLS BUDGET FORUM will be held remotely via 'Teams' on **Thursday, 20 November 2025** at **4.30pm** for the transaction of the following business:

1. Apologies
2. Disclosure of personal interest
3. To confirm the Minutes of the Meeting held on 5 December 2024 (Appendix A)
4. Matters arising from the Minutes
5. Overall Corporate Position
6. Schools Delegated Budget (School Balances)
7. Formula Funding 2025-26
8. Grants
9. Any Other Business
10. Date of Next Meeting

**Yr eiddoch yn gywir/** Yours faithfully

LEdwards

***Miss Lowri Edwards***
***Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd/***
*Corporate Lead Officer: Democratic Services*

**At: Gadeirydd ac Aelodau Fforwm Cyllid Ysgolion Ceredigion**
To: Chairman and Members of the Ceredigion Schools Budget Forum

**Cofnodion cyfarfod Fforwm Cyllid Ysgolion Ceredigion a gynhaliwyd yn rhithiol ar Teams ar ddydd Iau, 5 Rhagfyr 2024**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Wyn Thomas, Aelod Cabinet ar gyfer Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau; y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth; Enid Brophy, Pennaeth: Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant; Lee Burrows, Pennaeth: Ysgol Cenarth a Llechryd; Carol Davies, Pennaeth: Ysgol Dyffryn Cledlyn; Peter Leggett, Pennaeth: Ysgol Gynradd Rhydypennau a Dorian Pugh, Pennaeth: Ysgol Henry Richard.

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:** Elen James, Prif Swyddog Addysg a Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes; Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael a Neris Morgans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

(4.20pm – 4.49pm)

1. **Ymddiheuriadau**
   i. Ymddiheurodd Mair Hughes, Pennaeth: Ysgol Penglais a Catryn Lawrence, Pennaeth: Ysgol Penrhyncoch ac Ysgol Penllwyn am nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.
   ii. Ymddiheurodd Carys Fowles, Cyfrifydd Cynorthwyol am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

2. **Datgelu buddiant personol**
   Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant personol.

3. **Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gyfarfu ar 9 Mai 2024**
   **CYTUNWYD** cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mai 2024.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion**
   Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Bryan Davies mewn perthynas â Chynllun Ynni *Re:fit* a chwmnïoedd yn cysylltu ag ysgolion gyda chynigion amrywiol yn ymwneud â gosod paneli solar ffotofoltaig ac ymrwymo i gontractau tymor hir, esboniodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes bod Swyddogion wedi drafftio llythyr o gyngor i'w rannu gyda phob Pennaeth yr wythnos nesaf ynglŷn â'r mater. Nodwyd bod adeiladau'r ysgol yn eiddo i'r awdurdod lleol a bod angen gwneud cais am ganiatâd lle bo angen.

   Ychwanegodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael fod contract ynni corfforaethol ar waith tan fis Medi 2025 ac felly, gallai unrhyw drefniadau eraill beryglu hyn.

   Cytunodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes i rannu'r llythyr cynghori gyda'r Gwasanaeth Cyllid a Chaffael cyn iddo gael ei ddosbarthu i Benaethiaid.

5. **Sefyllfa Gorfforaethol Gyffredinol a Chyllideb Ysgolion Dirprwyedig**
Darparodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael gyflwyniad i bawb yn amlinellu'r canlynol:
    - Cyllideb 24-25
    - Y sefyllfa yn ystod y flwyddyn – Chwarter 2 24-25
    - Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ddiweddaraf – hyd at 24.10.24
    - Dyfarniad Cyflog
    - Yswiriant Gwladol Cyflogwyr
    - Chwyddiant
    - Heriau Allweddol o ran y Gyllideb
    - Arbedion Blynyddol/ Grym gwario wedi'i golli
    - Y camau nesaf

    **CYTUNWYD** i nodi'r wybodaeth.

6. **Fformiwla Gyllido**
Esboniodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael ei bod yn bwysig bod y Fformiwla Gyllido yn cael ei ystyried fel eitem sefydlog ar agenda'r fforwm. Y prif ffocws ar hyn o bryd oedd cefnogi'r ysgolion drwy amseroedd heriol o ran y gyllideb, ac o bosib gellid ystyried adolygiad yn y tymor mwy canolig i'r tymor hir. Gwahoddwyd aelodau'r Fforwm i ystyried ac i roi adborth ynghylch unrhyw feysydd penodol yr oeddent yn teimlo bod angen sylw arnynt.

    Dywedodd y Cynghorydd Bryan Davies bod gwahaniaeth sylweddol yn y cyllid pan oedd ffigyrau Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion yn gadarnhaol. Ychwanegodd ei bod yn hanfodol bod yn agored i drafodaethau gydag ysgolion.

    Esboniodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes fod nifer y disgyblion yn gostwng ar draws y sir ac roedd data'n awgrymu y byddai hyn yn parhau dros y blynyddoedd nesaf.

    **CYTUNWYD** i nodi'r wybodaeth.

7. **Unrhyw fater arall**
Dim.

8. **Dyddiad y cyfarfod nesaf**
Dyddiad y cyfarfod nesaf i'w ddosbarthu maes o law.

    Anogodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes Benaethiaid i gysylltu â Swyddogion os ydynt yn dymuno ystyried eitem benodol mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. Nodwyd y byddai manylion am gyllidebau ysgolion ar gyfer 2025/26 yn cael eu dosbarthu cyn gynted â phosibl.

    Atgoffodd y Cynghorydd Bryan Davies Benaethiaid i gysylltu os ydynt yn dymuno trafod mater brys, a pheidio ag aros tan y cyfarfod nesaf. Diolchodd i holl staff yr ysgolion am eu gwaith a'u hymroddiad.

Diolchodd y Cadeirydd hefyd i holl staff a swyddogion yr ysgolion am eu gwaith. Dymunodd Nadolig Llawen i bawb a oedd yn bresennol.